



CYFLE GYRFA ARDDERCHOG

GWEITHIO YM MAES GOFAL CYMDEITHASOL

SWYDD: AMRYWIOL

ORIAU:
PATRYMAU GWEITHIO HYBLYG

CYFLOG:
CYSTADLEUOL + GWOBRAU

GWNEWCH GAIS NAWR
AM YRFA FODDHAUS YM MAES
GOFAL CYMDEITHASOL

DYDDIAD CAU:
'DYW HI BYTH YN RHY HWYR!



Chwilio am waith?

EFALLAI NAD HYSBYSEB SWYDD go iawn yw hon, ond gan fod y galw am wasanaethau gofal yn cynyddu'n gyson mae cyfleoedd ym maes gofal cymdeithasol. Mae'r llyfryn hwn yn cwmpasu manteision o weithio yn y sector, y mathau o rolau sydd ar gael a lle i ddod o hyd i swyddi.

Sefydlwyd y Cyngor Gofal yn 2001 i hyrwyddo ymddygiad ac ymarfer o safon uchel ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol a safonau uchel wrth iddynt hyfforddi. Rydym yn cymeradwyo hyfforddiant cymhwysol gwaith cymdeithasol a chynnal y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod gan weithwyr gofal cymdeithasol gyswllt cyson â'r Cyngor Gofal. Ein gobaith wrth ddarparu'r llyfryn hwn yw rhoi'r dechrau gorau posib i chi ar eich taith tuag at yrfa werth chweil sy'n rhoi boddhad.

© (2011) f2 Cyngor Gofal Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru.

ISBN: 978-1-906528-24-9

COPIAU PELLACH A FFORMATAU ERAILL

Gallwch gael copïau pellach o'r ddogfen hon mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os oes eu hangen.

Dylunio: www.savageandgray.co.uk 4232/10

CYFLE GYRFA ARDDERCHOG

GWEITHIO YM MAES GOFAL CYMDEITHASOL

SWYDD: AMRYWIOL

OORIAU: PATRYMAU GWEITHIO HYBLYG

CYFLOG: CYSTADLEUOL + GWOBRAU

GOFYNION HANFODOL:

DA AM WRANDO A CHEFNOGI ERAILL;
YSTYRIOL, AMYNEDDGAR A DEALLGAR;
AC YN MWYNHAU GWEITHIO GYDA PHOBL.

BUDDIANAU'R SWYDD:

BODDHAD SWYDD O GEFNOGI POBL;
CYFLEOEDD DILYNIANT GYRFA;
HYFFORDDIANT YN Y GWAITH

**GWNEWCH GAIS NAWR AM YRFA FODDHAUS
YM MAES GOFAL CYMDEITHASOL**

DYDDIAD CAU:

'DYW HI BYTH YN RHY HWYR!



Pam dewis gofal cymdeithasol?

OS YDYCH AM GAEL SWYDD lle y gallwch fynd adref ar ddiwedd pob dydd yn gwybod eich bod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd rhywun, darllenwch fwy. Mae cyfleoedd gyrfa i bobl o wahanol oedran; i'r rheini sy'n dechrau ar yrfa a'r rheini sy'n gobeithio newid cyfeiriad eu gyrfa yn llwyr. Darperir hyfforddiant yn y gwaith, felly os ydych yn ystyriol, yn amyneddgar ac yn ddeallgar, gallwch ddod o hyd i swydd ym maes gofal sy'n defnyddio'r sgiliau a'r profiad sydd gennych eisoes i helpu eraill, tra'n datblygu eich gyrfa eich hun.

Mae gwaith ar gael yn eang mewn amrywiaeth o rolau a lleoliadau. P'un a ydych yn dymuno gweithio gyda phobl hŷn, pobl ag anableddau neu blant ac oedolion ifainc y mae angen cymorth arnynt yn eu bywydau bob dydd; gallwch ddod o hyd i swydd sy'n rhoi llawer o falchder a boddhad swydd.

Ymhlith y manteision eraill mae:

Patrymau gweithio hyblyg

Gweithio gyda phobl

Gyrfa heriol ond boddhaus

Cyfleoedd i bobl o bob oedran

Byth yn rhy hwyr i ofalu

DRWY ROI cymorth ymarferol, meithrin cydberthnasau ac ennyn ymddiriedaeth, gallwch helpu pobl i fyw bywydau llawnach a mwy annibynnol. Gall hyn olygu helpu pobl gyda rhai pethau bach, ond gall wneud gwahaniaeth mawr i sut maent yn teimlo... a pha mor wych y gallech chi deimlo o wybod yr effaith gadarnhaol rydych wedi ei chael.

Pa waith y gallaf ei wneud?

MAE'R TERM GOFAL CYMDEITHASOL yn cwmpasu ystod gyfan o wasanaethau, sy'n golygu bod llawer o amrywiaeth o waith ar gael; gyda llawer ohonynt yn cynnig patrymau gweithio hyblyg. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol yn gynorthwyr gofal cartref neu'n gweithio mewn cartrefi gofal ond mae digon o feysydd gwaith eraill hefyd gan gynnwys: gweithio i eich cyngor lleol, sefydliadau gwirfoddol neu weithio'n uniongyrchol i'r unigolyn rydych yn ei gefnogi. Gallech weithio gyda phlant, teuluoedd a phobl ifanc neu bobl ag anableddau. Byddai angen i chi gael gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn y gallwch ddechrau gweithio, gan y gallech fod yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Ymhlith y teitlau swydd cyffredin mae: gweithiwr gofal, gweithiwr cymorth, gweithiwr allweddol a chynorthwy-ydd gofal. Dyma ddisgrifiad byr o rai o'r meysydd gwahanol y gallech weithio ynddynt:

Gofal Cartref ac Ailalluogi

Mae gweithwyr gofal cartref yn darparu cymorth i bobl hŷn neu oedolion ag anghenion arbenigol yn eu cartrefi eu hunain. Bydd lefel y gofal yn amrywio ag yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn, ond bydd yn aml yn golygu cymorth ymarferol a gofal personol a all gynorthwyo unigolion i fyw'n annibynnol.

Mae **gofal ailalluogi** yn fath arbenigol o ofal cartref lle mae gweithwyr yn darparu gofal dwys yn y cartref er mwyn sicrhau bod oedolion yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau posibl i ddiwallu eu hanghenion unigol ac adennill annibyniaeth ar ôl cyfnod o salwch, anabledd neu gyfnod pan gollwyd hyder, o bosibl. Bydd gweithiwr ailalluogi yn rhoi cefnogaeth a chymorth a gaiff ei leihau'n raddol er mwyn cynnal, adennill neu ddatblygu sgiliau byw dyddiol a chynnal annibyniaeth a galluogi oedolion i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain.



Gofal Preswyl i Oedolion



Bydd y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn yn bobl hŷn a phobl ag anableddau sydd angen mwy o ofal arnynt o fewn amgylchedd diogel a chyfforddus. Mae

staff a chynorthwyr gofal preswyl yn darparu gwasanaeth gwerthfawr ac yn sicrhau bod y preswylwyr yn cael eu trin ag urddas drwy ddarparu lefel broffesiynol o ofal a sicrhau y caiff eu hanghenion iechyd, personol a chymdeithasol eu diwallu.

Gofal Preswyl i Blant

Bydd angen i weithiwr gofal ddatblygu cydberthnasau ac ennyn ymddiriedaeth plant sydd angen defnyddio gofal preswyl am amryw resymau, i'w helpu i ymdopi ag amrywiaeth o faterion a allai fod yn effeithio ar eu bywydau. Mae'r gwaith yn golygu bod yn fodel rôl, arwain â dysgu, sgiliau bywyd a datblygiad personol.



Gall y gwaith hwn fod yn heriol ond gall hefyd roi boddhad mawr o weld yr effaith gadarnhaol ar fywyd plentyn.

ASTUDIAETH ACHOS 1

Carol Ellis, Arweinydd Tîm, Gwasanaethau Gofal Dydd

PENDERFYNAIS NEWID GYRFA ar ôl cael fy niswyddo yn fy mhedwardegau hwyr. Newidiais fy ngwaith wrth ddesg ym maes cyfrifyddiaeth am waith ymarferol yn y proffesiwn gofal. Dechreuais fel nofis yn y sector ond rwyf wedi ennill cymwysterau dros y blynyddoedd a bellach yn gweithio fel Arweinydd Tîm yng Ngweithdy Crefftau Seren.



Sefydlwyd Seren, y cwmni rwy'n gweithio iddo, i ddarparu gwaith yn y gymuned i unigolion ag anawsterau dysgu. Mae'r gwaith yn fy ysgogi ac rwy'n mwynhau'r her o ddod o hyd i ffyrdd o gynorthwyo ein defnyddwyr gwasanaeth i ddysgu sgiliau newydd. Yr agwedd sy'n rhoi'r mwyaf o foddhad i mi yw gweld unigolion yn tyfu o ran hyder.

Gwasanaethau Gofal Dydd

Mae canolfannau Gofal Dydd yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i bobl sydd ag ystod eang o anghenion gofal cymdeithasol. Bydd gweithwyr gofal yn darparu cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, yn ogystal â darparu gofal a chymorth personol. Gall y gwasanaeth hwn gyfrannu'n fawr at hyrwyddo annibyniaeth, annog a dysgu sgiliau newydd ac yn y pen draw mae'n darparu lle cyfeillgar a chymdeithasol i fynd iddo yn y gymuned leol.



Gweithio gyda Theuluoedd

Bydd gweithwyr cymorth i deuluoedd yn gweithio fel rhan o dîm o dan arweiniad gweithiwr cymdeithasol i gefnogi rhieni wrth iddynt ddatblygu sgiliau rheoli'r cartref a rhianta da. Bydd gwella'r sgiliau hyn yn helpu rhieni i oresgyn unrhyw wrthdaro ac anawsterau ymddygiad, gan sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cadw gyda'i gilydd ac y caiff lles y plant ei sicrhau.

Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Mae gweithio ym maes blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gallu cynnwys amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys grwpiau chwarae, gofal y tu allan i'r ysgol, meithrinfeydd, canolfannau i blant ac i deuluoedd a crèches. Mae gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant yn darparu gofal ac addysg i blant o'u geni i oedran ysgol ac felly maent yn chwarae rhan hanfodol o gefnogi eu datblygiad ar gam allweddol yn eu bywydau. Mae'r bobl sy'n gweithio yn y maes hwn yn mwynhau'r her o fod yn greadigol ac yn egniol wrth gynllunio a gwneud gweithgareddau a hefyd yr hwyl o ryngweithio â phlant. Mae'n rôl ac iddi lawer o gyfrifoldeb hefyd gyda ffocws ar annog a monitro datblygiad plentyn a sicrhau ei fod yn cael y gofal gorau bob amser.



ASTUDIAETH ACHOS 2

**Colin Bryce,
Rheolwr Cartref Cofrestredig a Chyfarwyddwr
Cwmni, Gofal Preswyl/Cartref i Oedolion**

TREULIAIS 23 BLYNEDD GYNTAF fy ngyrfa yn y Llynges Frenhinol. Pan fyddwn gartref ar wyliau, chwaraewn fy rôl fel aelod o'r teulu yn darparu gofal seibiant i ddau o blant â Syndrom Down. Yna symudais ymlaen i gwmni peirianeg mawr - pan gaeodd y cwmni, penderfynais i a'm gwraig ddechrau busnes gan ddarparu gofal 24-awr i oedolion ifainc ag anableddau dysgu. Roedd hyn yn gwneud synnwyr gan fod gofalu am ddau o blant wedi rhoi cymaint o foddhad ac roedd gan fy ngwraig 25 mlynedd o brofiad o waith â thal ym maes gofal hefyd. Ar ôl cwblhau fy NVQ 4 mewn Gofal deuthum yn Rheolwr Cartref cofrestredig a chanfûm ei fod yn newid gyrfa boddhaus iawn.

Gan fy mod yn fy mhedwardegau gyda llawer o sgiliau bywyd, gallwn gysylltu â'r defnyddwyr gwasanaeth a'u cynnwys mewn amrywiaeth o weithgareddau hamdden gan gynnwys teithiau yn chwarae rygbi ledled y DU. Roedd eu cefnogi i chwarae mewn tîm gallu cymysg yn rhoi boddhad mawr i mi, er nad oedd fy ngwraig mor fodlon pan wnaethant geisio fy nenu i'r cae i chwarae hefyd! A ninnau bellach wedi ehangu ein busnes i Ofal Cartref, rwy'n parhau i fod yn berson ymarferol iawn ac yn cael cyswllt dyddiol â'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion o bob oed.

**Am ddisgrifiadau mwy manwl o swyddi ym
maes gofal cymdeithasol, ewch i:**

www.caringcareers.org.uk

Sut y gallaf ddod o hyd i swydd?

FEL ARFER adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, elusennau, sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau preifat sy'n cynnig swyddi ym maes gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a, e.e. cartrefi gofal preifat ac asiantaethau gofal cartref.

Gellir dod o hyd i swyddi gwag mewn papurau newydd lleol, drwy ymweld â chanolfannau gwaith lleol, ar wefannau chwilio am waith neu drwy gofrestru ag asiantaeth gyflogi/recruiwtio sy'n arbenigo ym maes gofal cymdeithasol, fel:

www.agencycentral.co.uk/agencysearch/social_care

Mae'r gwefannau canlynol yn ddefnyddiol ar gyfer chwilio am gyfleoedd ym maes gofal cymdeithasol:

www.communitycare.co.uk

www.greatsocialcare.co.uk

www.jobseekers.direct.gov.uk

MAE'R CANLYNOL yn enghreifftiau nodweddiadol o hysbysebion swyddi ym maes gofal cymdeithasol er mwyn rhoi syniad o beth y bydd cyflogwyr yn chwilio amdano gennych mewn gwahanol rolau:

MAE ANGEN CYNORTHWY-YDD PERSONOL AR WŪR BONHEDDIG YN ABERTAWE

Dyletswyddau gofal personol, cymdeithasu a domestig.

8-12 Awr yr wythnos. £7 yr awr yn ystod yr wythnos
a £7.50 yr awr ar y penwythnos.

Trwydded yrru lawn yn ofynnol.

SWYDD: GWEITHIWR CYMORTH DYDD PARHAOL/RHAN AMSER GWASANAETHAU I OEDOLION - ANABLEDD DYSGU

CYFLOG: £14,733-£16,830 PRO RATA

Rydym yn chwilio am weithiwr cymorth brwdfrydig â chymhelliant i weithio gyda phobl ag anableddau dysgu. Byddai rhywfaint o brofiad yn ddymunol ac mae'n bwysig eich bod yn gallu cynnig cymorth ac anogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn diwallu eu hanghenion unigol.

Anelwn at ddarparu gweithgareddau ysgogol a phleserus yn y gwasanaeth dydd yn ogystal â gweithgareddau yn y gymuned.

Byddai NVQ neu Diploma FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddymunol neu byddwn yn darparu cymorth a goruchwyliaeth er mwyn cyflawni hyfforddiant a nodwyd ac y cymhwyster perthnasol.

SWYDD: GWEITHWYR CYMORTH YM MAES GOFAL PLANT

CYFLOG: HYD AT £15,250 PRO RATA

Mae ein cartrefi seibiant yn cynnig egwyl fer i bobl rhwng 8 a 18 oed sydd ag anableddau dysgu. Eich rôl fydd darparu cymorth i'r bobl ifanc hyn gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n darparu gwerth ac ystyr, gan arwain at ffordd o fyw annibynnol o ansawdd gwell.

Byddwch yn meddu ar sgiliau cyfathrebu da ac yn gallu gweithio fel rhan o dîm neu ar eich menter eich hun. Er mwyn gweithio yma byddwch yn mwynhau chwarae a bydd gennych synnwyr digrifwch da.

Mae gofynion statudol yn gofyn am NVQ3 neu Diploma FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc), ond efallai y gallwn eich helpu i gyflawni hyn.

Mae'r swydd hon am 18.5 awr yr wythnos i gynnwys gyda'r hwyr, gyda'r nos, penwythnosau a gwyliau banc.

SWYDD: SWYDDOG CANOLFAN DDYDD GWASANAETHAU I OEDOLION - ANABLEDD DYSGU £18,453 - £21,519

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn galluogi oedolion ag anableddau dysgu i fanteisio ar ystod eang o gyfleoedd yn y gymuned ac yn eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau a chymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrion yn y gymuned leol.

BYDD YN RHAI D I'R YMGEISWYR FEDDU AR Y CANLYNOL:

Profiad o weithio mewn lleoliad gofal a phrofiad o gefnogi pobl ag ystod o anableddau dysgu.

Dealltwriaeth o faterion anabledd (grymuso, dewis, eiriolaeth).

Y gallu i ddangos agwedd ymrwymedig, hyblyg a llawn cymhelliant at ddyletswyddau a allai gynnwys gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol.

ddai'n ddymunol i ymgeiswyr gael Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol neu Diploma FfCCh Lefel 2 neu 3 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol.

SWYDD: CYNORTHWY-YDD GOFAL 28 AWR YR WYTHNOS GWASANAETHAU I OEDOLION - CARTREF PRESWYL £16,440 - £19,126 PRO RATA

Rydym yn chwilio am Gynorthwy-ydd Gofal i weithio 28 awr yr wythnos i ofalu am breswylwyr mewn gofal hir-dymor, byr-dymor a gofal dydd.

Bydd yn rhaid bod gennych brofiad o weithio mewn lleoliad preswyl gan feddu ar ddealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n sail i ofal o ansawdd e.e. urddas a dewis. Bydd yn rhaid i chi allu cyfathrebu yn effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, meddu ar ddealltwriaeth glir o natur sensitif a chyfrinachol y swydd a bod yn gwrtais ac ymatebol i anghenion yr unigolyn.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr weithio tuag at Diploma FfCCh Lefel 2 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, a gallu gweithio'n hyblyg gan gynnwys dyletswyddau ar y penwythnos, gwyliau banc a chysgu dros nos.

Noder fod y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh) wedi disodli Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) yn mis Ionawr 2011. Bydd NVQs presennol yn parhau i gael eu cydnabod gan gyflogwyr. Gweler www.ccwales.org.uk/qualifications-and-careers/qualifications-and-credit-framework.

Cwestiynau Cyffredin

C. Oes swyddi ar gael?

Oes, ledled Cymru!

C. A fyddai chwilio am swydd ym maes gofal cymdeithasol yn wahanol i ddod o hyd i unrhyw swydd arall?

Na, byddech yn chwilio yn yr un ffordd yn union, ond gall y maes gofal cymdeithasol roi'r cyfle i chi fynd i mewn i'r farchnad swyddi ar wahanol lefelau yn dibynnu ar eich profiad. Mae rhai cyfleoedd i weithio oriau hyblyg yn dibynnu ar eich amgylchiadau, h.y. gweithio gyda'r hwyr neu oriau tra bo'ch plant yn yr ysgol. Am ragor o gyngor ar fynd i mewn i'r farchnad swyddi, edrychwch ar y gwefannau canlynol:

backtowork.direct.gov.uk

www.gyrfacymru.com

C. Os byddaf yn ail-hyfforddi ym maes gofal cymdeithasol, a fydd digon o gyfleoedd gwaith i mi yn y dyfodol?

Mae dros 150,000 o bobl ar hyn o bryd yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, a gyda phoblogaeth sy'n heneiddio mae'r galw'n debygol o barhau i gynyddu yn y dyfodol. Felly, gall gyrfa mewn gofal cymdeithasol gynnig digon o gyfleoedd i chi gael gwaith parhaus yn lleol.

C. Nid wyf erioed wedi gweithio ym maes gofal cymdeithasol o'r blaen, ond hoffwn newid gyrfa ac yn y pen draw ddatblygu i fod yn weithiwr cymdeithasol. Sut y gallaf wneud hyn?

Os nad oes gennych brofiad blaenorol neu gymwysterau yna bydd yn rhaid i chi ddechrau ar lefel mynediad ac ennill profiad a chymwysterau drwy waith gwahanol. Gan godi mewn amser i swydd â mwy o gyfrifoldeb a fydd yn cynnig mwy o ddewis ar gyfer gyrfa mewn gwaith cymdeithasol. Gallech ddod o hyd i gyfleoedd am secondiad gyda chyflogwr yn y dyfodol lle y byddai'n caniatáu i chi fynd i'r brifysgol a hyfforddi fel gweithiwr cymdeithasol.



C. Rwyf wedi cael fy niswyddo ar ôl 20 mlynedd yn fy swydd ddiwethaf, ydw i'n rhy hen i ddechrau swydd newydd ym maes gofal cymdeithasol?

Mae hi byth yn rhy hwyr. Bydd unrhyw ddarpar gyflogwyr yn edrych yn ffafriol ar yr holl sgiliau a phrofiad rydych wedi eu datblygu yn eich gwaith blaenorol a thu allan i'r gwaith.

C. Oes cyfleoedd dilyniant gyrfa?

Oes - mae llawer o gyfleoedd i ddatblygu eich gyrfa ym maes gofal cymdeithasol gyda chyflogwyr yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ac mae llawer o lwybrau gyrfa ar gael i chi.

Efallai yr hoffech ddatblygu eich gyrfa a gweithio gyda phobl yn uniongyrchol bob amser, neu efallai yr hoffech ddatblygu i rolau sydd â llai o ofal uniongyrchol a mwy o gyfrifoldebau rheoli megis dod yn rheolwr tîm, yn gydgyssylltydd gwasanaeth neu'n rheolwr uned breswyl.

Yn dibynnu ar eich profiad, gallwch naill ai ddechrau ar y gwaelod neu fynd i mewn ar lefel ganolog a gweithio eich ffordd i fyny drwy astudio am gymwysterau galwedigaethol amrywiol yn seiliedig ar waith. Gallai rhywfaint o brofiad a chymwysterau o sectorau eraill hefyd fod yn ddefnyddiol. Drwy astudio ychydig o fodiwlau ychwanegol, byddwch yn gallu trosi'r cymwysterau presennol hyn i gydymffurfio â rheoliadau rheoli gofal.



C. Rwyf wedi gofalu am aelodau o'r teulu am nifer o flynyddoedd, a fydd y profiad hwn yn fy helpu i gael swydd â thâl ym maes gofal cymdeithasol?

Bydd, efallai y byddwch wedi datblygu nifer o sgiliau trosglwyddadwy dros y blynyddoedd, h.y. ymdrin â phobl sy'n agored i niwed a gweithwyr gofal cymdeithasol eraill, a fydd o bosibl yn fanteisiol iawn i chi wrth wneud cais am swyddi. Sicrhewch eich bod yn tynnu sylw at y rhain ar eich CV neu unrhyw ffurflenni cais am swydd.



C. Rwyf wedi clywed bod gwneud rhyw fath o waith gwirfoddol ym maes gofal cymdeithasol yn ffordd dda o ennill profiad. Sut y gallaf wneud hyn?

Gall gwirfoddoli fod yn werth chweil gan roi llawer iawn o foddhad. Y peth gwych yw eich bod yn penderfynu lle a phryd rydych am ei wneud, a pha mor aml neu am ba hyd. Gallwch ymchwilio i'r syniad o gael gyrfa newydd heb roi'r gorau i'ch swydd bresennol.

Mae'n rhoi profiad perthnasol diweddar i chi y gallwch ei gynnwys yn eich CV a gallai ddarparu geirda gwerthfawr i chi fynd gyda chi i swydd newydd. Mae'n profi eich bod yn ymrwymedig i weithio yn y sector a bydd hyn yn creu argraff dda ar goleg, prifysgol neu ddarpar gyflogwr. Gall rhai swyddi gwirfoddol hefyd droi'n waith llawn amser - mae'n gyfle gwych i ddangos i bobl beth y gallwch ei wneud!

Os ydych yn ddi-waith ar hyn o bryd gallwch wneud gwaith gwirfoddol di-dâl a pharhau i hawlio budd-daliadau diweithdra neu gymhorthdal incwm ar yr amod eich bod yn rhydd i fynd i gyfweiliadau a chymryd swydd os cynigir un i chi. Am ragor o wybodaeth am wirfoddoli a dod o hyd i swyddi gwirfoddol yng Nghymru, ewch i'r gwefannau canlynol:

www.gwirfoddolicymru.net

www.wcva.org.uk

C. Pa gyrsiau Coleg Addysg Bellach (AB) fyddai orau os wyf am yrfa ym maes gofal? Sut y gallaf ganfod fy Ngholeg lleol?

Nid oes angen gwneud cwrs coleg bob amser i ddechrau eich gyrfa. Bydd cyflogwyr yn aml yn gweithio gyda cholegau i drefnu cymwysterau yn seiliedig ar waith lle y bydd asesydd yn asesu eich cymwyseddau yn eich gwaith.

Os hoffech astudio cyn penderfynu ar yrfa yn y maes, cysidrwch 'Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Lefel 1' - mae'n rhoi trosolwg o'r sector a'r gwerthoedd perthnasol. Cysylltwch â'ch Coleg lleol i ddarganfod argaeledd. Gallwch ddod o hyd i'ch Coleg AB lleol a'r cyrsiau a gynigir ar www.colegaucymru.ac.uk.

Cyn ymgymryd ag unrhyw gymwysterau, byddai'n werth gweld pa mor addas ydynt, felly edrychwch ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar wefan y Cyngor Gofal cyn dechrau ar gwrs.

C. A fydd y cymwysterau rwyf wedi'u cyflawni cyn i'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau gael ei gyflwyno yn parhau i gael eu cydnabod, neu a fydd angen i mi ennill cymwysterau newydd y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau?

Bydd y cymwysterau rydych wedi'u cyflawni cyn i'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau gael ei gyflwyno yn parhau i gael eu cydnabod. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i chi ddiweddarau rhai unedau neu gymwysterau yn dibynnu ar ofynion penodol ar gyfer y sector. Am ragor o wybodaeth ewch i: www.qcda.gov.uk

Os ydych yn meddu ar y priodoleddau cywir, y penderfyniad a'r awydd i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl, rydych yn barod i gymryd y camau cyntaf tuag at yrfa foddhaus a gwerth chweil, un lle y gallwch wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, neu os hoffech drafod sut y gallwch ddechrau ym maes gofal cymdeithasol, cysylltwch â'r:

Tîm Gyrfaoedd

Cyngor Gofal Cymru, 7fed Llawr, Tŷ South Gate, Caerdydd, CF10 1EW
Ffôn: 0845 070 0249 E-bost: gyrfaoedd@cgymru.org.uk

Minicom: 029 2078 0680 Gwe: www.cgymru.org.uk

Dilynwch ni ar Facebook: www.facebook.com/CareCareersWales